BATHING WATER QUALITY

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Environment Agency Wales plays an important part in the implementation of the European Commission Bathing Water Directive (76/160/EEC).

The Agency is required to sample and analyse bathing waters in accordance with the requirements of the Directive, and report the results annually to the Department of the Environment, Transport and the Regions (DETR) and the Welsh Office.

WHEN DOES THE AGENCY TEST FOR BATHING WATER QUALITY?

Between 1 May and 30 September each year. In Wales, over 1300 samples are taken from 68 bathing waters around the Welsh coastline.

Twenty samples are taken from each bathing water identified under the EC Bathing Water Directive. The samples are normally taken about 30 centimetres below the surface, except in the case of samples used for testing for mineral oils, which are taken at the water's surface.

The samples are analysed for a range of parameters including the presence of different types of sewage indicator bacteria such as total coliform and faecal coliform.

The sample results are passed to local environmental health officers, the Welsh Office and the Department of the Environment, Transport and the Regions (DETR). The DETR transmits the data annually to the European Commission, and uses the sample results to assess bathing water compliance with the EC Directive.

COMPLIANCE WITH THE DIRECTIVE

The mandatory coliform standards given in the Directive which are generally used to assess compliance require there to be no more than 10,000 total coliforms per 100ml and no more than 2,000 faecal coliforms per 100ml. In order for a bathing water to comply, 95% of samples taken must meet these standards.

HOW CAN I FIND OUT RESULTS FOR MY LOCAL BEACH?

Local authorities have been asked by the Government to display the results on posters at coastal resorts. The results are also available for inspection on the Environment Agency's public registers at Regional and Area offices.

HOW TO CONTACT US

General enquiries - 0645 333 111

(0830 to 1700 hours, Monday to Friday)
Calls will be diverted to your nearest office

Emergency Hotline - 0800 80 70 60
for reporting pollution and danger to the environment 24 hours a day, 365 days a year.

GA Water Quality (Box 5)

ENVIRONMENT AGENCY
129006

taflen ffeithiau
fact sheet

ANSAWDD DŴR YMDROCHI

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn chwarae rhan bwysig mewn gweithredu Cyfarwyddyd Dŵr Ymdrochi (76/160/EEC) y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae gofyn i'r Asiantaeth samplu a dadansoddi dyfroedd ymdrochi yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd, ac anfon y canlyniadau bob blwyddyn i Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a'r Swyddfa Gymreig.

PRYD Y BYDD YR ASIANTAETH YN PROFI ANSAWDD DŴR YMDROCHI?

Rhwng 1 Mai a 30 Medi bob blwyddyn. Yng Nghymru, cymerir dros 1300 o samplau o 68 safle ymdrochi ar hyd yr arfordir.

Cymerir ugain sampl o bob dŵr ymdrochi a restrir yng Nghyfarwyddyd Dŵr Ymdrochi y CE. Cymerir y samplau fel rheol tua 30 centimetr o dan yr wyneb, ac eithrio yn achos samplau a ddefnyddir i brofi am olewau mwynol, sy'n cael eu cymryd o wyneb y dŵr.

Dadansoddir y samplau am amrywiaeth o baramedrau, gan gynnwys gwahanol fathau o facteria sy'n dangos bod carthion yn bresennol, megis colifformau'n gyffredinol a cholifformau ymgarthol yn arbennig.

Trosglwyddir y canlyniadau i swyddogion iechyd yr amgylchedd lleol, y Swyddfa Gymreig ac Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Mae'r Adran hon yn trosglwyddo'r data bob blwyddyn i'r Comisiwn Ewropeaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau sampl i benderfynu a yw'r dŵr ymdrochi yn cydymffurfio â Chyfarwyddyd y CE.

CYDYMFFURFIO Â'R CYFARWYDDYD

Yn ôl y safonau colifform gorfodol yn y Cyfarwyddyd, a ddefnyddir fel rheol i asesu cydymffurfiad, rhaid i bob 100 ml o ddŵr gynnwys dim mwy na 10,000 colifform o bob math a dim mwy na 2,000 colifform ymgarthol. Er mwyn i ddŵr ymdrochi gydymffurfio, rhaid i 95% o'r samplau a gymerir gwrdd â'r safonau hyn.

SUT Y GALLAF GAEL Y CANLYNIADAU AM FY NHRAETH LLEOL?

Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i awdurdodau lleol ddangos y canlyniadau ar bosteri mewn trefi glan môr. Gellir astudio'r canlyniadau hefyd drwy ofyn am weld cofrestri cyhoeddus Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei swyddfeydd Rhanbarthol ac Ardal.

SUT I GYSYLLTU Â NI

Ymholiadau cyffredinol - 0645 333 111
(0830 hyd 1700, Llun - Gwener)
Caiff galwadau eu cyfeirio i'ch swyddfa agosaf.

Llinell Argyfwng - 0800 80 70 60
I adrodd am lygredd a pheryglon i'r amgylchedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru Plas yr Afon Parc Busnes Llaneirwg Caerdydd CF3 0LT
Environment Agency Wales Rivers House St. Mellons Business Park St. Mellons Cardiff CF3 0LT